

NATUR A'R ARGYFWNG HINSAWDD

Mae newid yn yr hinsawdd yn newid bywyd i ni i gyd

NATURE AND CLIMATE EMERGENCY

Climate change is changing life for all of us


2050

Bydd Abertawe'n cael mwy o stormydd glaw trwm, cyfnodau sych a hafau poeth yn y dyfodol. Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd ac ecolegol byd-eang cyfunedig a rhyngberthynol.

Swansea will have more heavy rain storms, droughts and warmer summers. We are facing a combined and inter-related local and global climate and ecological disaster.

ERS 1976 CAFWYD GOSTYNGIAD O

52%



YN Y DORETH O LOYNNOD BYW YNG NGHYMRU**

SINCE 1976 THERE HAS BEEN A

52% DECLINE



IN THE AVERAGE ABUNDANCE OF BUTTERFLIES IN WALES**

17%

o rywogaethau Cymru mewn perygl o ddarfod*

17%

of species in Wales are at risk of being lost*

Datganodd Cyngor Abertawe argyfwng hinsawdd ym mis Mehefin 2019 ac argyfwng natur ym mis Tachwedd 2021.

Swansea Council declared a Climate Emergency in June 2019 and a Nature Emergency in November 2021.

Bydd gwrthdroi colli bioamrywiaeth yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac yn gwella'n hiechyd a'n lles.

Reversing biodiversity loss will help to tackle climate change and improve our health and well-being.

GALLWN NI I GYD HELPU I NEWID HYN DRWY ADFER NATUR

WE CAN ALL HELP TO CHANGE THIS BY PUTTING NATURE INTO RECOVERY

Gall y cynefinoedd bach a grëwyd yn y dysglau plannu weithredu fel cerrig camu bioamrywiaeth, gan gysylltu canol y ddinas â chynefinoedd eraill gerllaw. Mae hyn yn fuddiol i beillwyr drwy ddarparu ffynonellau bwyd a lloches. Mae'r ynni a'r adnoddau y mae'r dysglau plannu'n eu darparu yn helpu gwenyn, ieir bach yr haf a phryfed hofran i deithio ymhellach i beillio cnydau neu blanhigion gardd. Byddant hefyd yn helpu i roi hwb i rywogaethau adar ac ystlumod, sy'n bwyta pryfed.

The mini habitats created in the planters can act as biodiversity stepping stones, connecting the city centre with other nearby habitats. This benefits pollinators by providing food sources and shelter. The energy and resources supplied by the planters aids bees, butterflies and hoverflies to travel further afield to pollinate crops or garden plants. They will also help boost bird and bat species, which feed on insects.

Mae creu mwy o le ar gyfer natur yng nghanol y ddinas yn gwneud ein dinas yn fwy abl i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, a bydd yn gwneud ein dinas yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld â hi drwy:

Creating more space for nature in the city centre makes our city more resilient to the impacts of climate change, and will make our city a better place to live, work and visit by:

ADDASU I LIFOGYDD

Mae planhigion yn amsugno dŵr, sy'n helpu i leihau llifogydd

ADAPTING TO FLOODING

Plants absorb water which helps reduced flooding

EIN CADW NI'N OER

Mae coed a llwyni'n creu cysgod ac yn oeri'r aer o'n cwmpas

COOLING US DOWN

Trees and shrubs create shade and cool the surrounding air

LLEIHAU LEFELAU LLYGREDD

Mae coed a phlanhigion fel iorwg yn amsugno llygryddion o'r aer

REDUCING POLLUTION LEVELS

Trees and plants like ivy absorb pollutants from the air

Cymerwch ran mewn arolygon bywyd gwylt a helpwch i asesu iechyd ein hamgylchedd.

Take part in wildlife surveys and help assess the health of our environment.

* The State of Nature 2019 report 17% of species in Wales are at risk of extinction. Senedd Press published 15.10.2019

** www.nbn.org.uk/stateofnature2019/



Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government

